# Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

**Hysbysiad Hwylus** **Ionawr 2015**

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud newidiadau sylweddol i gymwysterau yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC). Caiff fersiwn newydd o CBC ei chyflwyno ar gyfer ei **haddysgu o fis Medi 2015 ymlaen**, cymhwyster a fydd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn fwy trylwyr. Mae hyn yn dilyn argymhelliad o **adolygiad Huw Evans o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru** y dylai CBC diwygiedig fod wrth wraidd system gymwysterau genedlaethol newydd Cymru.

## Cefndir

Cyflwynwyd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) ym mis Medi 2003 fel cynllun peilot. Yna, cafodd ei gyflwyno mewn nifer o ysgolion a cholegau addysg bellach, a'i gwneud ar gael i bob un ohonynt yng Nghymru ym mis Medi 2007.

Mae canolfannau (fel ysgolion a cholegau) yn gwneud cais i fod yn ddarparwyr CBC, proses a weinyddir gan CBAC fel y corff dyfarnu. Mae nifer y canolfannau sy'n addysgu CBC a nifer y disgyblion sy'n ei astudio wedi cynyddu'n raddol ers 2007.

Mae CBC yn cyfuno addysg gyffredinol a/neu alwedigaethol (drwy gymwysterau cyfredol) gyda datblygu sgiliau allweddol a fydd yn angenrheidiol i bobl ifanc ar ôl iddynt adael yr ysgol. Dywed CBAC ei fod yn 'rhoi profiadau ehangach na rhaglenni dysgu traddodiadol, yn addas i anghenion amrywiol pobl ifanc.'[1]

## Statws yn y cwricwlwm

Nid oes gofyniad statudol ar ddysgwyr i ddilyn CBC ac nid yw'n orfodol i ganolfannau ei ddarparu, er bod Llywodraeth Cymru yn eu hannog yn gryf i wneud hynny, gan gynnwys darparu cymhellion i ysgolion a cholegau.

Mae **adran Cwestiynau a Holir yn Aml** gwefan Cymwysterau Cymru Llywodraeth Cymru yn cynnwys y cwestiwn 'A fydd Bagloriaeth Cymru yn orfodol?' (gan gyfeirio at y fersiwn newydd a gaiff ei haddysgu o 2015 ymlaen). Mae Llywodraeth Cymru yn ateb drwy ddweud:

> Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cyffrous a heriol sy'n helpu pobl ifanc i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith ac astudiaeth bellach, a hefyd yn rhoi cymhwyster cydnabyddedig iddynt ar gyfer y sgiliau hynny. Yn unol ag argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld y cymhwyster yn cael ei fabwysiadu'n gyffredinol - h.y. dylai pob dysgwr, neu

[1] Gwefan Bagloriaeth Cymru (CBAC), **Beth yw Bagloriaeth Cymru?** [fel ar 23 Rhagfyr 2014]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Y Gwasanaeth Ymchwil

bron bob dysgwr, ddilyn Bagloriaeth Cymru. **Nid yw'n ofyniad statudol, ond anogir y defnydd ohoni. Bydd hyn yn cael ei ysgogi drwy fesurau perfformiad, a'i gefnogi drwy'r system ariannu ôl-16. [fy mhwyslais i]**

Mewn gwirionedd, mae'n dibynnu ar yr ysgol neu'r coleg ac a) a ydynt yn cynnig CBC a b) a ydynt yn ei gwneud yn orfodol i bob un o'u dysgwyr ei astudio. Fodd bynnag, pan fo canolfannau wedi cael eu cymeradwyo i gynnig CBC i ddisgyblion / myfyrwyr, mae Estyn wedi nodi ei bod yn **arfer da** iddynt ei ddarparu i bawb:

> 'Mae Bagloriaeth Cymru **yn fwyaf llwyddiannus mewn ysgolion lle mae'n elfen orfodol** o'r cwricwlwm. Y rheswm am hyn yw bod yr ysgolion hyn yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr yn cwblhau'r cymhwyster ac nid ydynt yn caniatáu i fyfyrwyr eithrio ohono, oni bai bod amgylchiadau eithriadol. Yn ogystal, bydd ystod ehangach o weithgareddau yn yr ysgolion hyn yn aml. Mewn ysgolion lle mae'r cymhwyster yn opsiwn, mae cyfraddau cwblhau yn is gan fod lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi'r gorau iddo. Mae hyn naill ai oherwydd eu bod yn gadael cyn diwedd eu cwrs neu am eu bod eisiau canolbwyntio ar eu pynciau opsiwn.' [fy mhwyslais i][2]

## Y cymhwyster cyfredol

Mae'r CBC cyfredol yn cynnwys dwy ran:

- **Craidd**: mae'n cynnwys pum cydran: Sgiliau Hanfodol Cymru /Sgiliau Allweddol; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg sy'n gysylltiedig â'r Gwaith; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; a'r Ymchwiliad Unigol;
- **Opsiynau**: cyrsiau / rhaglenni a gynigir ar hyn o bryd e.e. TGAU, Safon UG / Safon Uwch, BTEC a Phrif Ddysgu.

Ar hyn o bryd, gellir dilyn CBC ar un o dair lefel: Sylfaen; Canolradd; ac Uwch.

Bydd pob ymgeisydd sy'n bodloni gofynion yr elfennau Craidd ac Opsiynau sy'n berthnasol i bob lefel o'r cymhwyster, yn cael Diploma Sylfaen, Canolradd neu Uwch Bagloriaeth Cymru, fel sy'n briodol. Lefel Uwch CBC yw'r unig un a gaiff ei graddio a dim ond ers (cyrsiau'n dechrau) mis Medi 2013 y mae hyn wedi digwydd.

Dywed Llywodraeth Cymru y caiff CBC ei gydnabod a'i dderbyn yn eang gan sefydliadau addysg uwch.[3] Mae'r Diploma Uwch yn **120** o bwyntiau tariff Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau **(UCAS)**, yr un peth â gradd A mewn pwnc Safon Uwch. (Gweler adran ddiweddarach ar y gwerth y mae sefydliadau addysg uwch yn ei roi ar CBC).

Mae gwefan Bagloriaeth Cymru yn rhoi **rhagor o wybodaeth am y CBC cyfredol**, gan gynnwys y **manylebau** ar gyfer pob un o'r tair lefel.

[2] Estyn, **Darpariaeth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar lefel 3 mewn ysgolion uwchradd: Canllaw arfer dda**, 2012, paragraff 40
[3] Gwefan Cymwys am Oes (Llywodraeth Cymru), **Beth sy'n newid: Bagloriaeth Cymru** [fel ar 23 Rhagfyr 2014]

## Adolygiad o gymwysterau 14-19 oed

Ym mis Medi 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru Huw Evans, cyn-bennaeth Coleg Llandrillo, i gynnal adolygiad o'r cymwysterau sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yng Nghymru. Cyhoeddwyd adroddiad Huw Evans, sef **Adolygiad annibynnol o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru** ym mis Tachwedd 2012.

Gwnaeth yr adroddiad sawl argymhelliad pwysig ynghylch CBC, a derbyniodd Llywodraeth Cymru bob un ohonynt. Roedd yr adolygiad yn argymell y dylai CBC 'diwygiedig a mwy trylwyr' fod wrth wraidd y system gymwysterau genedlaethol newydd y mae'r adolygiad hefyd wedi'i hargymell ar gyfer Cymru. Roedd yr adolygiad yn gwneud pum argymhelliad penodol, sef:

- CBC **diwygiedig a mwy trylwyr**, ar gael ar y lefel Sylfaen Genedlaethol, y lefel Genedlaethol, y lefel ôl-16 Genedlaethol a'r lefel Uwch, a **datblygu ar y cryfderau a'r pryderon** sy'n gysylltiedig â'r model cyfredol;

- **Graddio ar lefel Uwch** ar gyfer dysgu o fis Medi 2013 ymlaen ac **ystyried y manteision a'r anfanteision o raddio lefelau eraill**;

- Llywodraeth Cymru **i annog pob ysgol sy'n addysgu disgyblion rhwng 14 a 16 oed (y lefel Sylfaen Genedlaethol neu'r lefel Genedlaethol) ac ysgolion a cholegau sy'n addysgu pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed (y lefel ôl-16 Genedlaethol neu'r lefel Uwch) i fabwysiadu CBC;**

- Defnyddio'r **system Rhif Dysgwr Unigryw i gadw cofnod canolog** o gyrhaeddiad cronnus pob dysgwr o elfennau o raglenni Bagloriaeth Cymru;

- **Ymgysylltiad mwy effeithiol rhwng darparwyr a chyflogwyr** i ddarparu elfennau o CBC fel profiad gwaith, addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, ac elfennau sy'n seiliedig ar sgiliau neu fenter.

Mewn **datganiad llafar ar 29 Ionawr 2013**, cyhoeddodd Jeff Cuthbert, y Dirprwy Weinidog Sgiliau ar y pryd, fod Llywodraeth Cymru yn derbyn yr holl argymhellion hyn ac y byddai CBC 'diwygiedig a mwy trylwyr' newydd yn cael ei gyflwyno i'w addysgu o fis Medi 2015 ymlaen. Dywedodd y byddai'r CBC newydd yn adeiladu ar y cryfderau ac yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd yn adolygiad Huw Evans mewn perthynas â'r CBC cyfredol. Roedd y cryfderau a'r pryderon hyn yn cynnwys:

### Cryfderau

- Cynnwys ystod eang o sgiliau a phrofiadau y mae cyflogwyr, prifysgolion ac eraill wedi dweud wrth yr Adolygiad eu bod am i bobl ifanc feddu arnynt;

- y pwyslais ar lythrennedd a rhifedd;

- y sgiliau eraill gan gynnwys sgiliau 'cyflogadwyedd' a phrofiadau cyfoethogi sy'n cyfrannu at addysg eang a chytbwys. Mae hyn yn cynnwys addysg gysylltiedig â gwaith, addysg bersonol a chymdeithasol a chyfranogiad cymunedol;

- Ymchwiliad Unigol, sy'n annog dysgwyr i astudio'n annibynnol, ac amryw o sgiliau ymchwil, meddwl a chyfathrebu;

- hyblygrwydd yr elfen Cymru, Ewrop a'r Byd. Pan gaiff ei chyflwyno'n dda mae i'w weld yn boblogaidd, yn arloesol ac yn gyffrous;

- defnyddio cymwysterau annibynnol sy’n cael eu cydnabod yn rhyngwladol yn yr opsiynau ;
- darparu ar gyfer llwybrau academaidd a galwedigaethol o fewn un model.

**Pryderon**

- Mae'r dull asesu portffolio ar gyfer Sgiliau Hanfodol Cymru a Sgiliau Allweddol Ehangach yn cymryd llawer o amser ac yn amhriodol ar gyfer rhai sefydliadau;
- mae enghreifftiau o ddyblygu dysgu neu asesu rhwng Opsiynau a’r Craidd (er enghraifft, dysgwyr sy’n dilyn cymhwyster TGAU a Sgiliau Hanfodol Cymru mewn TGCh);
- mae ansawdd cyflenwi’r Craidd yn amrywio gormod rhwng darparwyr;
- mae’r gofynion cyfredol ar gyfer yr elfen iaith yn caniatáu gormod o amrywiaeth yn yr hyn sy’n cael ei gyflenwi;
- nid yw gwahanol lefelau cyflawniad yn cael eu cydnabod yn y dyfarniad a enillir;
- mae lefel isel o ddealltwriaeth, yn enwedig ymysg rhieni/gofalwyr, o strwythur, cynnwys neu ddiben Bagloriaeth Cymru.

## Y cymhwyster newydd (i'w addysgu o fis Medi 2015 ymlaen)

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Egwyddorion Cynllunio Bagloriaeth Cymru** (sy'n gymwys i gyrsiau a fydd yn cael eu haddysgu o fis Medi 2015 ymlaen) ym mis Tachwedd 2014. Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol 'i gyd mewn un lle' am y newidiadau i CBC.

Mae'r Egwyddorion Cynllunio yn nodi'r rhesymeg, y strwythur, y nodau a'r canlyniadau dysgu, y cynnwys, yr asesiad, y graddio, y safoni a'r gwaith o adrodd ar gyfer y CBC newydd. Mae'r ddogfen hefyd yn darparu'r fframwaith a'r meini prawf y gall cyrff dyfarnu eu defnyddio i greu manylion y manylebau ar gyfer CBC ar bob lefel. Mae'n rhaid i fanylebau achrededig fodloni gofynion yr Egwyddorion Cynllunio.

Ar hyn o bryd, caiff y CBC newydd ei ddyfarnu gan CBAC.  Caiff y CBC newydd ei ddyfarnu ar dair lefel:

- **Sylfaen** (ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 neu ôl-16);
- **Cenedlaethol** (ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 neu ôl-16);
- **Uwch** (ar gyfer Cyfnod ôl-16 yn unig).

Bydd y lefel Sylfaen gyfwerth â Lefel 1 (e.e. TGAU graddau D-G) o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru; y lefel Genedlaethol gyfwerth â Lefel 2 (e.e. TGAU graddau A*-C); a'r lefel Uwch gyfwerth â Lefel 3 (e.e. Safon Uwch).

Mae'r manylebau ar gyfer pob lefel o'r CBC newydd ar gael ar **wefan CBAC**.

Mae'r CBC newydd yn cynnwys elfen graidd, neu '**Dystysgrif Her Sgiliau**' fel y nodir yn y manylebau, ynghyd â **Chymwysterau Ategol**. Mae'n rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn sicrhau CBC llawn.

## Y Dystysgrif Her Sgiliau

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran a ddilynir gan bob dysgwr (manyleb wahanol ar gyfer pob lefel):

- **Prosiect Unigol** – gweithgarwch annibynnol sy'n seiliedig ar ymchwil sy'n cyfrannu 50% tuag at yr elfen graidd;
- **Yr Her Menter a Chyflogadwyedd**, a fydd yn datblygu sgiliau a nodweddion menter ac yn gwella cyflogadwyedd;
- **Yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang**, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ddeall mater byd-eang ac ymateb yn briodol iddo;
- **Yr Her Gymunedol**, a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd a fydd o fudd i'r gymuned leol.

## Cymwysterau ategol

Er mwyn sicrhau'r lefel **Sylfaen neu Genedlaethol** ar gyfer CBC, mae'n rhaid i ddysgwyr sicrhau'r canlynol:

- TGAU Iaith Saesneg neu TGAU Iaith Gymraeg (graddau A* - G ar gyfer y lefel Sylfaen, graddau A* - C ar gyfer y lefel Genedlaethol);
- TGAU Mathemateg – Rhifedd (graddau A* - G ar gyfer y lefel Sylfaen, graddau A* - C ar gyfer y lefel Genedlaethol);
- O leiaf tair TGAU arall (graddau A* - G ar gyfer y lefel Sylfaen, graddau A* - C ar gyfer y lefel Genedlaethol). Ar Gyfnod Allweddol 4, gall hyd at ddau o'r rhain fod yn gymwysterau cyfwerth; ar lefel ôl-16, gall y cyfan fod yn gyfwerth.

Er mwyn sicrhau'r lefel **Uwch** ar gyfer CBC, mae'n rhaid i ddysgwyr sicrhau'r canlynol:

- TGAU Iaith Saesneg neu TGAU Iaith Gymraeg (graddau A* - C);
- TGAU Mathemateg – Rhifedd (graddau A* - C);
- Dwy Safon Uwch, neu gyfwerth. Mae'n rhaid bodloni'r gofyniad hwn drwy sicrhau dim mwy na thri chymhwyster gwahanol.

## Sgiliau hanfodol a sgiliau cyflogadwyedd

Mae'r Egwyddorion a'r Manylebau Cynllunio yn nodi bod y CBC newydd yn ceisio galluogi dysgwyr i ddatblygu a dangos dealltwriaeth a hyfedredd mewn sgiliau hanfodol a sgiliau cyflogadwyedd. Caiff y rhain eu disgrifio fel y sgiliau y mae cyflogwyr ac addysgwyr cam nesaf yn eu gwerthfawrogi ac y mae eu hangen ar ddysgwyr er mwyn dysgu, gweithio a byw. Felly, mae'r CBC newydd yn canolbwyntio ar y **saith sgil hanfodol a sgil cyflogadwyedd** a ganlyn:

- Llythrennedd;
- Rhifedd;
- Llythrennedd digidol;
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau;

- Cynllunio a threfnu;
- Creadigrwydd ac arloesi;
- Effeithiolrwydd personol.

Ceir rhagor o fanylion am yr uchod yn y ddogfen Egwyddorion Cynllunio sydd hefyd yn nodi y bydd CBC yn:

- Galluogi dysgwyr i gryfhau eu sgiliau a ffurfioli'r broses o'u dysgu;
- Darparu sylfaen ddamcaniaethol a gwybodaeth neu dechnegau yn ymwneud â sgiliau;
- Annog dysgwyr i ystyried, dadansoddi a mynegi pa mor fedrus y maent yn y sgiliau;
- Ennyn brwdfrydedd dysgwyr i ymchwilio i'r sgiliau, eu datblygu, eu hymarfer a'u cymhwyso;
- Meithrin hyder dysgwyr a chynyddu eu heffeithiolrwydd wrth ddefnyddio a chymhwyso'r sgiliau mewn pob math o gyd-destunau ystyrlon, bywyd go iawn.

## Graddio

Mae tudalennau 14-15 o'r Egwyddorion Cynllunio yn nodi'r trefniadau ar gyfer graddio'r CBC newydd. Y dysgwyr a ddechreuodd astudio ar gyfer lefel Uwch CBC ym mis Medi 2013 fydd y rhai cyntaf i gael graddio eu cymwysterau ym mis Awst 2015.

Bydd y dysgwyr hynny sy'n astudio ar gyfer lefelau Sylfaen a Chenedlaethol y CBC newydd o fis Medi 2015 hefyd yn cael graddio eu cymhwyster.

Caiff y graddau cyffredinol a ganlyn eu dyfarnu ar gyfer CBC:

- Sylfaen: 'Pasio*' a 'Pasio';
- Cenedlaethol: A*, A, B ac C;
- Uwch: A*, A, B, C, D ac E.

Bydd ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion yr Heriau a'r Prosiect Unigol ond yn methu ag ennill y cymwysterau ategol gofynnol yn derbyn y Dystysgrif Her Sgiliau ar y lefel briodol.

**Bydd gradd gyffredinol CBC yn dibynnu ar gyfanswm y marc a roddir i'r elfen graidd** (y Dystysgrif Her Sgiliau) a fydd ynddi ei hun yn seiliedig ar ganlyniadau'r Prosiect Unigol a phob Her. Fel y nodir uchod, mae hyn hefyd yn **amodol ar fod yr ymgeiswyr yn bodloni gofynion y cymwysterau ategol**, er na fydd graddau'r rhain yn cael effaith ar y radd gyffredinol a roddir ar gyfer CBC.

Caiff yr Heriau a'r Prosiect Unigol eu graddio fel a ganlyn:

- Lefelau Sylfaen a Chenedlaethol: Pasio Sylfaenol, Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth;
- Safon Uwch: Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth.

## Y gwerth y mae sefydliadau addysg uwch a chyflogwyr yn ei roi ar CBC

Mae elfen Graidd Cymhwyster cyfredol Bagloriaeth Cymru ar y **lefel Uwch yn werth 120 o bwyntiau** yn nhariff Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS) ar gyfer derbyniadau, pan gaiff ei chwblhau fel rhan o Ddiploma Uwch Bagloriaeth Cymru.[4] Mae 120 o bwyntiau gyfwerth â gradd A Safon Uwch. Yn 2009, adolygodd Grŵp Arbenigol a oedd yn gweithio i UCAS y dyraniad o bwyntiau, a daeth i'r casgliad yn ei adroddiad[5] y dylai gwerth lefel Graidd Uwch CBC barhau i fod yn 120 o bwyntiau tariff UCAS. Cafodd yr argymhelliad hwn ei ardystio wedi hynny gan Fwrdd UCAS.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi y cred rhai aelodau o'r Grŵp Arbenigol y dylid cynyddu ei gwerth i 140 o bwyntiau, ond ar ôl trafod hyn, daethpwyd i'r penderfyniad terfynol i argymell y dylai barhau ar y lefel gyfredol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff y CBC newydd ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol o hyd gan sefydliadau addysg uwch ac y bydd gyfwerth â'r un nifer o bwyntiau UCAS. At hynny, cred fod graddio ar y lefel Uwch yn cryfhau'r sefyllfa ar gyfer mynd i'r brifysgol ym mis Medi 2015, gan helpu tiwtoriaid derbyniadau i wneud cynigion priodol.

Ar **wefan CBC**, wedi'i ddarparu gan y corff dyfarnu CBAC, caiff y gwerth a roddir ar yr elfen Graidd Uwch ei ddisgrifio fel '[c]ydnabyddiaeth ffurfiol bod y profiad a'r sgiliau a enillwyd yn werthfawr i'r ymgeiswyr ar lefel gradd a thu hwnt.' Dywed CBAC hefyd:

> Croesawyd Bagloriaeth Cymru gan y mwyafrif o sefydliadau, a llawer yn gwneud datganiad ffurfiol yn eu prosbectysau a'u gwefannau am y cymhwyster.

### Adroddiad WISERD, Mawrth 2013

Er gwaethaf gwerth tariff UCAS a eglurir uchod, ymddengys **nad yw pob sefydliad addysg uwch yn trin CBC gyfwerth â Safon Uwch** mewn gwirionedd mewn perthynas â sut y maent yn gwneud cynigion amodol i ddarpar fyfyrwyr. Mae hyn hefyd yn wir weithiau o fewn un sefydliad addysg uwch gyda chyrsiau ac ysgolion academaidd gwahanol yn mabwysiadu dulliau gwahanol i werth CBC.

Cafodd hyn ei amlygu mewn adroddiad a luniwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) Prifysgol Caerdydd, sef **'Relationships between the Welsh Baccalaureate Advanced Diploma and Higher Education'**. Roedd adroddiad WISERD yn trafod manteision gwahanol CBC i fyfyrwyr yn dibynnu ar **p'un a yw prifysgolion yn gwneud cynigion ar sail pwyntiau UCAS neu ar sail pynciau a graddau**.

> It was clear amongst students that for entry to universities that generally made offers in terms of UCAS Tariff the WBQ was likely to be beneficial. But if universities made their offers in terms of grades (and/or subjects) its benefit was less certain.[6]

---

[4] Mae dyfarnu Diploma Uwch Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gofyn am gwblhau'r elfen Graidd ar lefel Uwch a sicrhau dwy TAG Safon Uwch, neu gyfwerth. Nid yw elfen Graidd CBC, ar ei phen ei hun, yn cael ei chydnabod fel cymhwyster a dim ond pan fo myfyrwyr yn sicrhau Diploma Uwch y caiff pwyntiau tariff eu dyfarnu.

[5] UCAS, **Expert group report for review of award in the UCAS tariff: WJEC, Welsh Baccalaureate Advanced Diploma Qualification (Core)**, Hydref 2009

[6] WISERD, **Relationships between the Welsh Baccalaureate Advanced Diploma and Higher Education**, paragraff 4.18, 2013

Nododd adroddiad WISERD fod Cydlynwyr CBC yn glir iawn ynghylch y **diffyg cysondeb neu eglurder o ran sut y caiff CBC ei ystyried mewn perthynas â derbyniadau prifysgolion**, gydag un yn dweud:

> ‘different universities are offering different things [...] the biggest thing we can do is give [students] the advice that it might not be an A’.

Yn ôl cydlynydd arall CBC:

> ‘within the same university they can look at two courses – one will offer [the WBQ], one will not, which could disadvantage [students]’.[7]

Fodd bynnag, canfu WISERD, o'r dadansoddiadau meintiol a gynhaliwyd ganddo, er gwaethaf yr amrywiadau ymddangosol yn sut y mae'r sector addysg uwch yn y DU yn ystyried CBC, **nid oedd llawer o dystiolaeth bod hyn yn rhoi myfyrwyr Cymru dan anfantais**. Yn wir, nododd fod myfyrwyr prifysgol gyda CBC yn **fwy tebygol o fynd i un o brifysgolion y Russell Group** na myfyrwyr heb CBC, gyda phopeth arall yr un peth.[8]

Roedd canfyddiadau adroddiad WISERD yn ddwy ran yn bennaf. Daeth i'r casgliad fod CBC yn **arbennig o werthfawr** o ran paratoi pobl ifanc ar gyfer addysg uwch, o bosibl oherwydd y pwysau sydd ganddo yn nhariff UCAS. Ar yr un pryd, roedd yr adroddiad yn cefnogi canfyddiad blaenorol mewn adroddiad yn 2011 yn benodol ar Brifysgol Caerdydd nad oedd elfen Graidd CBC gyfwerth â gradd A Safon Uwch. At hynny, daeth i'r casgliad fod myfyrwyr gyda CBC yn **fwy tebygol o dynnu'n ôl o'r brifysgol ac yn llai tebygol o sicrhau 'gradd dda'**, a ddiffinnir fel gradd Dosbarth Cyntaf neu radd Ail Ddosbarth Uwch.

Mae'r adroddiad yn dadlau y gall y ddau ganfyddiad fod yn gysylltiedig. Daw i'r casgliad yr ymddengys fod CBC yn gwella'r tebygolrwydd o fynd i'r brifysgol, gyda phopeth arall yr un peth; ond ymddengys y daw'r fantais hon ar draul canlyniadau llwyddiannus yn y brifysgol.

---

[7] **Ibid**, paragraff 4.20
[8] **Ibid**, paragraff 4.22

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am **Gymhwyster Bagloriaeth Cymru**, cysylltwch â **Michael Dauncey** (**Michael.Dauncey@cynulliad.cymru)**, y Gwasanaeth Ymchwil.

**Gweler hefyd:**

– Llywodraeth Cymru, **Egwyddorion cynllunio ar gyfer Bagloriaeth Cymru**, Tachwedd 2014

– CBAC, **Bagloriaeth Cymru o fis Medi 2015** (manylebau newydd ac ati)

Darllenwch ein **holl gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **cynulliadcymru.org/research**

Gallwch ein dilyn ar Twitter hefyd: **@SeneddYmchwil**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid anfon y rhain i'r: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon mewn neges e-bost i **Ymchwil@cynulliad.cymru**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn â'r Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i'r cyhoedd.

**Rhif yr ymholiad: 14/3322**

**Michael Dauncey**